# Yr Ymddiriedolaethau Natur

Datganiad Ymrwymiad Diogelu

## Ymrwymiad Diogelu'r Ymddiriedolaethau Natur

Mae sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'n safleoedd ni ac yn ymgysylltu â'n sefydliad ni'n cael profiad pleserus a diogel yn flaenoriaeth lwyr i'r Ymddiriedolaethau Natur. Mae hyn yn cynnwys ein hymwelwyr ni, yr aelodau, gwirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd rhai pobl angen help a chefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg; fel mudiad rydyn ni wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau Diogelu yn ogystal â sicrhau bod diogelwch a lles wrth galon ein hymgysylltu â phawb. Rydyn ni eisiau ysbrydoli ac annog pawb i dreulio amser yn yr awyr agored, datblygu cysylltiad â byd natur a chwarae eu rhan yn adferiad byd natur yn ein cymunedau lleol.

## Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pawb sy'n ymweld â'n safleoedd ni ac yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau ni neu'n ymgysylltu â ni ar-lein.
- Rhoi blaenoriaeth gyfartal i gadw pawb yn ddiogel rhag niwed, dim ots beth yw eu hoedran, anabledd, rhywedd, hil, credoau, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau i'n staff, ein gwirfoddolwyr a'n hymddiriedolwyr ni i'w harwain wrth warchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg rhag cam-drin ac esgeulustod.
- Peidio â goddef unrhyw fath o gam-drin neu esgeulustod o fewn yr Ymddiriedolaethau Natur.

## Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi staff a gwirfoddolwyr drwy sefydlu polisi Diogelu clir a fframwaith gweithdrefnol, drwy adrodd tryloyw a thrwy hyrwyddo diwylliant o ddysgu ledled y mudiad.
- Annog staff a gwirfoddolwyr i drafod unrhyw bryderon ar unwaith neu cyn gynted â sy'n ymarferol bosibl gyda'u rheolwr llinell / goruchwylydd neu arweinydd diogelu penodol.
- Gwrando ar a chlywed llais y rhai sy'n defnyddio ein safleoedd ni, a pharchu eu barn.
- Recriwtio ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ddiogel drwy ddilyn egwyddorion canllawiau recriwtio mwy diogel.
- Cofnodi a storio gwybodaeth yn ddiogel ac yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.
- Cydnabod y safle o ymddiriedaeth y mae staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu rhoi ynddo'n rheolaidd a defnyddio ein

gweithdrefnau a gweithio gyda'n hawdurdodau lleol i reoli unrhyw honiadau yn eu herbyn yn briodol.

- Sefydlu canllawiau diogelwch ar-lein i gadw pawb sy’n rhyngweithio ar-lein gyda'r Ymddiriedolaethau Natur mor ddiogel â phosibl.
- Sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd ffisegol diogel i bawb, drwy gadw at fesurau iechyd a diogelwch yn unol â'r gyfraith a chanllawiau rheoleiddio.
- Gweithio mewn partneriaeth â’r asiantaethau statudol sy'n gyfrifol am Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl a sefydlu system glir o gyfeirio neu adrodd iddynt.
- Sicrhau bod gan unrhyw unigolyn neu sefydliad trydydd parti sy'n ymwneud â darparu gweithgareddau ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur drefniadau diogelu priodol.